



CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) CAERFFILI

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD TRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD
IAU 12 TACHWEDD 2020 AM 2.00 P.M.**

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Taylor - Cadeirydd
Mrs J. Jones (Yr Eglwys yng Nghymru) - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E. Aldworth, A. Collis, T. Parry

Cynrychioli Sefydliadau Addysgu: Miss H. Bartley (Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr), Mrs T. Lloyd (Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon - rhan o'r cyfarfod), Mrs C. McLaughlan (Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau)

Cynrychiolwyr Ffydd a Chred: Mr K. Chamberlain (Dyneiddwyr Cymru), Mr M. Gray (Yr Eglwys Fethodistaidd)

Ynghyd â:

P. Webber (Cynghorydd Dysgu Proffesiynol Gwasanaeth Cyflawni Addysg CYSAG ac AG),
C. Quinn (Ymarferydd Ysgolion Iach), R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ac y byddai ar gael yn dilyn y cyfarfod trwy wefan y Cyngor - [Cliciwch Yma i Weld.](#) Nodwyd y byddai pleidleisio ar benderfyniadau yn digwydd trwy alw o'r rhestr.

CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol a chafodd cyflwyniadau eu gwneud.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso cynnes i'r Cynghorydd Alan Collis a Mrs Claire McLaughlan (cynrychiolydd athrawon Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau) a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o CYSAG Caerffili. Nodwyd bod y Cynghorydd Alan Collis wedi cymryd lle'r Cynghorydd John Ridgewell ar y pwyllgor a mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch i'r Cynghorydd Ridgewell am ei wasanaeth a'i gyfraniadau i CYSAG dros y blynyddoedd diwethaf.

Croesawyd Carin Quinn (Ymarferydd Ysgolion Iach) hefyd i'w chyfarfod cyntaf CYSAG fel

cynrychiolydd Addysg yr ALI.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs G. Oliver a'r Cynghorydd J. Simmonds, ynghyd â Mrs M. Jones (UCAC), Mrs K. McCullough (Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau), Mrs E. Hawthorn (yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig), yr Uwchgapt P. Hubbard (Byddin yr Iachawdwriaeth) a Mr M. Western (Archegobaeth Gatholig).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

3. COFNODION CYSAG CAERFFILI - 23 HYDREF 2019

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion cyfarfod CYSAG Caerffili a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019 yn cael eu cymeradwyo a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Caerffili a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019 fel cofnod cywir.

4. CAMAU GWEITHREDU A MATERION SY'N CODI O'R COFNODION

Cadarnhaodd Ms Paula Webber (Cynghorydd AG i CYSAG Caerffili) nad oedd unrhyw faterion yn codi, a bod holl bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf wedi cael eu symud ymlaen a'u cwblhau.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG CAERFFILI 2019-2020

Rhodddwyd ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Caerffili a oedd yn amlinellu gweithgareddau CYSAG yn ystod blwyddyn academaidd 2019-20. Gofynnwyd i CYSAG ystyried, nodi a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft a chytuno ar unrhyw welliannau terfynol i'w cynnwys yn y ddogfen.

Dywedwyd wrth CYSAG bod sawl gwall teipograffyddol ynglŷn â dyddiadau wedi cael eu canfod ers paratoi'r Adroddiad Blynyddol drafft ac y byddent yn cael eu diweddarau cyn i fersiwn derfynol y ddogfen gael ei chyfieithu a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, 30 Rhagfyr 2020.

Rhoddodd Ms Webber ddiweddariad ar nifer o faterion a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys Aelodaeth CYSAG; Cwricwlwm i Gymru 2022; y Maes Llafur a Gytunwyd yn Lleol a'r Fframwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Monitro Arolygiadau AG ac Estyn; Dysgu Proffesiynol ar gyfer AG a Rhwydwaith Dysgu Ysgolion; Addoli ar y Cyd; Addysg am yr Holocost; Trefniadau Arholi TAG a TGAU; Hyfforddi Aelodau CYSAG a gohebiaeth a glychredwyd ar ran CYSAG Caerffili. Bu'r aelodau'n trafod ac yn nodi pob un o'r eitemau yn eu tro.

Yn ystod diweddariad Ms Webber, atgoffwyd CYSAG o'r newid enw ar gyfer Addysg Grefyddol o 2022 o dan y Cwricwlwm newydd, lle bydd yn cael ei adnabod fel Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd cwmpas AG hefyd yn newid yn yr ystyr bod yn rhaid iddo fod

yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol; bydd gofyn i ysgolion ddysgu barn y byd, a bydd AG yn eistedd o dan Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm newydd.

Cydnabu CYSAG y lluo enfawr o newidiadau a'r goblygiadau i AG sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd a mynegodd yr angen am hyfforddiant digonol i gefnogi athrawon trwy'r newidiadau hyn. Amlinellodd Ms Webber y mecanweithiau cymorth sydd ar waith, gan nodi bod CCYSAGauC wedi cefnogi dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ac yn ceisio cynnal cynhadledd yn hyn o beth. Bydd arweiniad a chefnogaeth yn cael eu rhaedru i athrawon AG trwy'r gwaith sy'n cael ei wneud rhwng cydweithwyr ar draws CCYSAGauC a Phanel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) a thrwy waith Rhwydwaith Dysgu Ysgolion ym mhob consortia.

Nodwyd bod CCYSAGauC, yn ystod pandemig Covid-19, wedi paratoi canllawiau mewn perthynas â materion fel addoli ar y cyd ac roedd yr ysgolion yn ddiolchgar am hyn. Cyfeiriwyd at yr aflonyddwch a achoswyd gan y pandemig, yn enwedig o ran atal arolygiadau Estyn a chanslo arholiadau. Esboniodd Ms Webber na fydd unrhyw arholiadau TGAU neu Safon Uwch yn cael eu cynnal yn Haf 2021 a bydd graddau'n cael eu dyrannu trwy asesiad athrawon yn lle. Y cyngor cyfredol i athrawon AG yw parhau â'u trefniadau cyfredol nes bod arweiniad ar yr asesiadau wedi'u cyhoeddi.

Esboniodd Ms Webber ei bod yn bwriadu cynhyrchu cylchlythyr i ysgolion er mwyn eu diweddarau gyda'r newidiadau i'r cwricwlwm mewn perthynas ag AG a'r newidiadau niferus o amgylch y pandemig. Dywedodd hefyd wrth CYSAG, pe bai angen unrhyw hyfforddiant diweddarau neu anffurfiol arnynt ynghylch y newidiadau, y byddai'n hapus i hwyluso'r trefniadau.

Ar ôl ystyried ei gynnwys, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar gynnwys y mân welliannau uchod, y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol CYSAG ar gyfer 2019-2020. Trwy alw o'r rhestr ac wrth nodi bod 9 o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar gynnwys mân welliannau teipograffyddol fel y'u nodwyd yn y cyfarfod, y dylid cymeradwyo a chylchredeg yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019-2020 yn unol â hynny ar ôl ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Rhagfyr 2020.

6. YMATEBION CYSAG CAERFFILI I'R YMGYNGHORIADAU DIWEDDAR AR Y CWRICWLWM I GYMRU 2022

Amlinellodd yr adroddiad yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a gyflwynwyd gan Gadeirydd CYSAG Caerffili a ddaeth o ddau ymgynghoriad diweddar ar Gwricwlwm i Gymru 2022. Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau hyn gan Lywodraeth Cymru a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru yn y drefn honno. Nodwyd bod ymateb drafft ar gyfer pob ymgynghoriad wedi'i ddosbarthu i Aelodau CYSAG trwy e-bost am eu sylwadau a chyflwynwyd yr ymatebion terfynol cyn dyddiadau cau'r ymgynghoriad.

Nododd CYSAG Caerffili fanylion yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

7. ADBORTH O GYFARFOD CCYSAGauC YN ABERAERON AR 21 TACHWEDD 2019

Nododd CYSAG drafodaethau ac ystyriaethau CCYSAGauC yn ei gyfarfod yn Aberaeron ar 21 Tachwedd 2019. Esboniwyd bod CCYSAGauC wedi cyfarfod ers hynny ar 7 Hydref 2020 ac y byddai'r cofnodion drafft yn cael eu cylchredeg i CYSAG Caerffili maes o law.

8. ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU CCYSAGauC 2019-2020.

Rhoddodd Ms Webber drosolwg o weithgareddau CCYSAGauC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pwysleisiodd fod CCYSAGauC yn ymwybodol iawn o'r pwysau a wynebir gan athrawon o ganlyniad i bandemig Covid-19 a dymunai atgoffa athrawon o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn ystod y cyfnod anodd hwn.

9. CYNRYCHIO LAETH YNG NGHYFARFODYDD CCYSAGauC SYDD I DDOD

Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfarfod nesaf CCYSAGauC wedi'i drefnu dros dro ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2021, ac o dan amgylchiadau arferol, tro CYSAG Caerffili fyddai cynnal y cyfarfod. Mae CCYSAGauC wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol i ofyn i CYSAG Caerffili gynnal y cyfarfod ac maent hefyd wedi cynnig rhai dyddiadau cyfarfod dros dro. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch y pandemig a'r cyfyngiadau cyfarfod posibl, mae'n debygol y bydd hwn yn gyfarfod rhithwir y bydd CCYSAGauC yn ei drefnu, ond byddent yn dal yn hoffi i CYSAG Caerffili fynychu fel y "gwesteiwr rhithwir" er mwyn i'w cyflawniadau gael eu cydnabod gan CCYSAGauC.

Nodwyd bod yr awdurdod lleol yn ystyried y cais ar hyn o bryd, ac yn amodol ar eu cytundeb, bydd dyddiad cyfarfod Tymor y Gwanwyn yn cael ei gylchredeg maes o law gyda holl Aelodau CYSAG Caerffili yn cael eu gwahodd i ddod.

I gloi, diolchodd y Cadeirydd i'r holl fynychwyr am gymryd rhan a chynghorodd y bydd dyddiad cyfarfod nesaf CYSAG yn cael ei gylchredeg pan fydd ar gael.

Terfynwyd y cyfarfod am 2.55 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25ain Tachwedd 2021.

CADEIRYDD